
Polisi Diogelu Data

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	3
2	Diben.....	3
3	Cwmpas	4
4	Data categori arbennig	4
5	Amodau ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol a data troseddau.....	5
6	Disgrifiadau o'r data a brosesir	6
7	Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion	7
8	Rhagor o Wybodaeth	9
9	Adolygu	10

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) wedi ymrwymo i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA).
- 1.1 I gyflawni ein swyddogaethau statudol a corfforaethol, rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol am staff, unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau, cyflenwyr ac eraill. Mae hyn yn cynnwys prosesu data categori arbennig a data euogfarn droseddol.
- 1.2 Mae'r egwyddorion Diogelu Data sydd wedi'u nodi yn Erthygl 5 o'r GDPR yn mynnu'r canlynol:
 - Rhaid prosesu data yn deg, yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw.
 - Rhaid defnyddio data at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon.
 - Rhaid i ddata fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol.
 - Rhaid i ddata fod yn gywir ac yn gyfredol, lle bo angen.
 - Ni ddylid cadw data yn hwy nag sydd angen.
 - Rhaid cadw data yn ddiogel.
- 1.3 Mae'r egwyddor atebolrwydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion a sicrhau nad ydym yn peryglu unigolion wrth brosesu eu data personol. Gall methu â gwneud hynny arwain at dorri'r ddeddfwriaeth ynghyd â pheri risgiau ariannol a risg i enw da. I gyflawni ein rhwymedigaethau, rydym wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.

2 Diben

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r sail a ddefnyddiwn i brosesu unrhyw ddata personol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

2.2 Mae'r DPA yn ei gwneud yn ofynnol i Ddogfen Polisi Priodol (APD) fod yn ei lle wrth brosesu data categori arbennig a data troseddau dan rhai amodau penodol. Mae'r polisi hwn hefyd yn ffurfio ein APD, er y gall manylion prosesu gael eu cynnwys ym mholisiau eraill OGCC hefyd.

3 Cwmpas

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddata personol (fel y diffinnir gan ddeddfau Diogelu Data), boed ar bapur, yn electronig neu mewn unrhyw fformat arall.

3.2 Mae'r polisi yn berthnasol i holl staff OGCC (gan gynnwys staff parhaol, staff contract, staff dros dro) ac unigolion neu sefydliadau sy'n cael eu contractio yn uniongyrchol gan y OGCC.

4 Data categori arbennig

4.1 Mae rhywfaint o ddata personol yn fwy sensitif ac mae angen lefelau uwch o ddiogelu. Cyfeirir at hyn fel data categori arbennig ac mae'n ymwneud â:

- Tarddiad hiliol neu ethnig.
- Barn wleidyddol.
- Credoau crefyddol neu athronyddol.
- Aelodaeth undeb llafur.
- Data genetig.
- Data ID biometrig.
- Data iechyd.
- Bywyd rhywiol a/neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Data troseddol (euogfarnau a throseddau).

5 Amodau ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol a data troseddau

5.1 Rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol am ei fod yn angenrheidiol o dan yr amodau Erthygl 9 canlynol y GDPR.

Amod Erthygl 9(2).		Enghreifftiau o brosesu
(a)	Caniatâd penodol	Gofynion diet staff a gwybodaeth iechyd a gawn am unrhyw un a allai fod angen addasiad rhesymol i gael mynediad at ein gwasanaethau.
(b)	Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol.	Rheoli a chofnodi absenoldeb salwch staff.
(c)	I ddiogelu buddiannau hanfodol.	Defnyddio gwybodaeth iechyd am weithiwr mewn argyfwng meddygol.
f)	Ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.	Tribiwnlys cyflogaeth neu gyfreitha arall.
(g)	Rhesymau o fudd y cyhoedd sylweddol.	Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ystyried cwynion a wneir i ni. Rydym yn derbyn neu'n cael gwybodaeth at ddibenion ystyried cwynion o'r fath.
(j)	Archifo, ymchwil ac ystadegau.	Caiff adroddiadau ymchwiliadau budd y cyhoedd eu cyhoeddi ar ein gwefan.

5.2 Rydym hefyd yn prosesu data troseddau o dan Erthygl 10 y GDPR. Er enghraifft, pan fo angen prosesu ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi.

6 Disgrifiadau o'r data a brosesir

- 6.1 Rydym yn prosesu data categori arbennig ein gweithwyr am ei fod yn angenrheidiol i ni gyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfraith cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a llesiant gweithwyr, ethnigrwydd, ffotograffau ac aelodaeth undeb llafur. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Hysbysiad Preifatrwydd y Gweithiwr](#) (dogfen fewnol).
- 6.2 Rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth o'n hymchwiliadau cwynion yn barhaol at ddibenion archifo, ymchwil ac ystadegol lle mae gwneud hynny er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau i leihau'r data a gadwn ac rydym yn sicrhau na ellir adnabod unigolion unwaith y daw'r cyfnod cadw priodol i ben.
- 6.3 Wrth brosesu data categori arbennig am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, rydym yn sicrhau bod o leiaf un o'r amodau Atodlen 1, Rhan 2 canlynol y DPA yn cael eu bodloni:
- Paragraff 6(1) a (2)(a) – Diben statudol.
 - Paragraff 7 – Gweinyddu cyfiawnder.
 - Paragraff 8 - Cyfle neu driniaeth gyfartal.
 - Paragraff 9 – Amrywiaeth hiliol ac ethnig ar lefelau uwch o sefydliadau.
 - Paragraff 10 – Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon.
 - Paragraff 11 – Diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd.
 - Paragraff 12 – Gofynion rheoliadol yn ymwneud â gweithredoedd anghyfreithlon ac anonestrwydd.
 - Paragraff 18 – Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl.
 - Paragraff 24 - Datgelu i gynrychiolwyr etholedig.
- 6.4 Rydym yn prosesu data troseddau at y dibenion canlynol yn rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 y DPA:
- Paragraff 30 – Diogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn.
 - Paragraff 32 – Data personol yn y parth cyhoeddus.

- Paragraff 33 – Hawliadau cyfreithiol.
- Paragraff 36 – Estyniad o Amodau Budd y Cyhoedd yn Rhan 2.

7 Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion

7.1 Mae'r wybodaeth isod yn dangos sut rydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data. Nid yw'n bendant a'i bwriad yw rhoi enghreifftiau o'r gweithdrefnau a rown ar waith.

7.2 Egwyddor atebolrwydd

7.2.1 Rydym wedi rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i gyflawni'r gofynion atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Penodi swyddog diogelu data.
- Dilyn agwedd 'diogelu data yn fwriadol ac yn niffyg' at ein gweithgareddau fel sydd wedi'i nodi yn ein [Polisi Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#).
- Cadw cofnodion o'n gweithgareddau prosesu o fewn cofrestr asedau gwybodaeth.
- Mabwysiadu a gweithredu polisiâu diogelu data a sicrhau bod gennym gontractau ysgrifenedig yn eu lle gyda'n proseswyr data.
- Gweithredu mesurau diogelwch priodol mewn perthynas â'r data personol a broseswn.

7.2.2 Mae gennym [Fframwaith Strategol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth](#) (dogfen fewnol) sy'n ein galluogi i adolygu ein mesurau atebolrwydd yn rheolaidd a'u diweddarau neu eu diwygio pan fo angen. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau allweddol.

7.3 Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

7.3.1 Rydym yn ystyried cwynion a wneir i ni am gyrff cyhoeddus yng Nghymru a bod cynghorwyr wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod lleol. Mae ein swyddogaethau statudol wedi'u nodi yn Neddf Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC) a'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (LGA).

- 7.3.2 Mae ein prosesu at ddibenion cyflogaeth yn ymwneud â'n rhwymedigaethau fel cyflogwr.
- 7.3.3 Caiff y sail gyfreithiol a ddefnyddiwn i brosesu data personol ei hesbonio yn ein [hysbysiadau preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan](#) ac yn ein [Hysbysiad Preifatrwydd y Gweithiwr](#) (dogfen fewnol).

7.4 Cyfyngiadau o ran dibenion

- 7.4.1 Byddwn ond yn prosesu data personol at ddiben penodol ac i gyflawni ein swyddogaethau statudol. Ni fyddwn yn prosesu data personol at ddiben arall ar wahân i'r sawl sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Preifatrwydd a oedd yn berthnasol pan gasglwyd y data.
- 7.4.2 Mae adran 69(2) o Ddeddf OGCC ac adran 69(E) o'r LGA yn darparu'r amodau ar gyfer datgelu i reolwr arall.

7.5 Lleihau data

- 7.5.1 Rydym yn casglu data personol sy'n angenrheidiol at y dibenion perthnasol ac rydym yn sicrhau nad ydym yn casglu mwy nag sydd ei angen arnom. Byddwn yn cymryd camau i ddileu unrhyw ddata nad yw'n ymwneud â'r mater rydym yn ei ystyried neu'r diben rydym yn prosesu'r data personol.

7.6 Cywirdeb

- 7.6.1 Pan ddown yn ymwybodol bod data personol sydd gennym yn anghywir neu wedi dyddio, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'w gywiro heb oedi. Weithiau ni allwn gytuno i ddileu neu gywiro data personol ac os felly, byddwn yn dogfennu ein rhesymau dros hyn a byddwn yn esbonio hyn i wrthrych y data. Pan fydd trydydd parti wedi rhoi gwybodaeth i ni, ni allwn gywiro'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, byddwn yn cofnodi bod

amheuaeth ynghylch cywirdeb y data personol a gedwir neu, os yw'n briodol, ei fod yn anghywir.

7.7 Cyfyngiadau o ran cadw

7.7.1 Mae ein [hamserlen cadw cofnodion](#) yn nodi am ba mor hir rydym yn cadw gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys lle rydym wedi penderfynu bod budd cyhoeddus sylweddol i gadw gwybodaeth yn barhaol at ddibenion ymchwil hanesyddol ac ystadegol. Caiff ein hamserlen cadw cofnodion ei hadolygu'n rheolaidd.

7.8 Uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)

7.8.1 Rydym wedi rhoi rheolaethau ffisegol, technegol a gweithdrefnol priodol ar waith i ddiogelu gwybodaeth ffisegol ac electronig. Caiff y rhain eu hamlinellu yn ein [Polisi Diogelwch Gwybodaeth](#). Caiff y polisi ei adolygu'n rheolaidd a chaiff hyfforddiant staff ei ddiweddarau'n flynyddol.

7.8.2 Mae ein systemau electronig yn ein galluogi i ddileu neu ddiweddarau data personol pan fo angen.

8 Rhagor o Wybodaeth

8.1 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau llywodraethu gwybodaeth berthnasol eraill, gan gynnwys:

- [Polisi Diogelwch Gwybodaeth](#).
- [Polisi a Gweithdrefn Rheoli Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth](#).
- [Polisi Rheoli Cofnodion](#).
- [Amserlen Cadw Cofnodion](#).
- [Polisi Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#)
- [Ceisiadau hawliau gwybodaeth](#)

8.2 Rydym yn cadw dogfennau eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys canllawiau sefydliadol eraill. Mae

ein Cofnod o Weithgareddau Prosesu wedi'i nodi mewn Cofrestr Asedau Gwybodaeth.

9 Adolygu

- 9.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 mlynedd a'i gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol.
- 9.2 Cysylltwch â policycontrol@ombudsman.wales am unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon.